# 5c.Dalen Awgrymiadau Athrawon
## Effeithiau Sylweddau Cyfreithlon ac Anghyfreithlon

| | | |
|---|---|---|
| **EFFEITHIAU IECHYD**<br>Cyfog/chwydu<br>Ymlediad cannwyll llygad<br>Newid mewn patrwm cysgu<br>Problemau iechyd difrifol<br>Caethiwed<br>Marwolaeth<br>Afiechyd meddwl<br>Pryder | Gall nifer o'r sylweddau arwain at gyfog, yn enwedig os y'u cymerir gydag alcohol neu gyffuriau neu feddyginiaeth arall.<br>Gallai defnyddio unrhyw gyffur dros gyfnod hir arwain at farwolaeth, (ee alcohol, tybaco), fodd bynnag gall rhai cyffuriau eich lladd y tro cyntaf y byddwch yn eu defnyddio (ee. Toddyddion). Mae caethiwed i gyffuriau presgripsiwn a thros y cownter yn gyffredin iawn ac yn aml ni chaiff ei ganfod nes y bydd cymlethdodau'n codi.<br>Nid yw sylweddau seicoweithredol wedi eu profi'n iawn i weld pa mor wenwynig ydynt i bobl, felly nid oes ffordd i wybod sut y bydd cyffur seicoweithredol yn effeithio arnoch, yn arbennig os y'i cymerir gydag alcohol neu gyffuriau neu feddyginiaeth arall. Ni wyddom ddim am effeithiau tymor canolig a hirdymor defnyddio'r cyffuriau hyn. | Er gwybodaeth i athrawon yn unig<br>Alcohol<br>Canabis<br>Toddyddion<br>Meffedron (Meow Meow)<br>MXE<br>(dynwared Cetamin)<br>Bromo dragon fly (dynwared LSD) |
| **EFFEITHIAU EMOSIYNOL**<br>Diffyg swildod<br>Newid mewn hwyliau<br>Perthynas yn torri<br>Ymddygiad ymosodol<br>Gorfywiogrwydd<br>Iselder<br>Paranoia<br>Ymddygiad afreolaidd | Gall pobl sy'n cymryd cyffuriau ymddwyn mewn ffyrdd na fyddant fel arfer yn ymddwyn a chymryd risgiau. Ynghyd ag embaras yr ymddygiad - canlyniadau eraill yw cymryd risgiau (gorwedd yng nghanol y ffordd, rhyw anniogel ac ati).<br>Gallant achosi pryder, ymosodiadau panig, paranoia neu hyd yn oed salwch seicotig. Mae llawer yn symbylwyr (uppers) a allai eich rhwystro rhag cysgu gan eich gadael wedi llwyr ymlâdd ac yn isel eich ysbryd yn ddiweddarach.<br>Gall llawer o gyffuriau gael effeithiau negyddol ar iechyd meddwl.<br>Yn aml bydd llawer o bobl yn dweud bod ganddynt 'ben maen mawr' ar ôl cymryd y cyffuriau hyn. | Alcohol<br>Canabis<br>Amffetamin<br>Cyffuriau newydd (fel uchod a llawer mwy)<br>Salvia<br>Ritalin<br>Faliwm<br>MSJ (Llythrennau blaen enw'r crëwr yw'r rhain - nid cynnwys y cyffur) |

SchoolBeat.cymru

Hawlfraint Heddlu Gwent 2023
© Gwent Police Copyright 2023

| | | |
|---|---|---|
| **EFFEITHIAU CYMDEITHASOL**<br>Problemau perthynas<br>Dadleugar a chroendenau<br>Perygl arestiad<br>Anhawster dod o hyd i swydd<br>Tangyflawni yn yr ysgol | Mae llawer o sylweddau seicoweithredol yn cynnwys cymysgeddau o gyffuriau anghyfreithlon a chyfreithlon ac nid yw anwybodaeth yn esgus am fod yn eu meddiant.<br>Os bydd swyddog heddlu yn amau eich bod ym meddiant sylwedd a reolir gallech gael eich arestio. Gall euogfarn arwain at ddiffyg cyfleoedd.<br>Bydd arestiadau o'r fath yn ymddangos flynyddoedd yn ddiweddarach ar wiriad DBS estynedig a bydd unrhyw rybuddion neu euogfarnau i'w gweld ar wiriad DBS cyffredin a gall effeithio ar eich cyfle i gael swydd, gwirfoddoli a theithio.<br>Mae cyflenwi cyffuriau a reolir yn cynnwys eu rhoi i eraill yn ogystal â'u gwerthu. | Er gwybodaeth i athrawon yn unig<br>Y cyfan neu unrhyw rai o'r uchod a mwy… |


Hawlfraint Heddlu Gwent 2023
© Gwent Police Copyright 2023